



YSGOL I.D. HOOSON

14.01.21

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Hoffwn eich hysbysu am ychydig o wybodaeth bwysig wrth i'r trefniadau presennol barhau gyda'r ysgol ar gau.

Wrth i drefniadau dysgu o bell dyddiol barhau, a fyddech cystal â chymryd sylw o'r canllawiau ar gyfer eich plentyn fel yr amlinellwyd yn y cytundeb a rannwyd ym mis Hydref, o ran yr hyn sydd yn ddisgwyliedig gan bob plentyn wrth i'r athrawon gynnal sesiynau dysgu byw gyda'r plant. Drwy ddilyn y canllawiau, bydd yn hwyluso ychydig ar y trefniadau ar gyfer y sesiynau dyddiol.

Rwyf yn cytuno i:

- fod yn brydlon ar gyfer pob gwers a mewngofnodi i'r sesiwn cyn yr amser dechrau
- sicrhau fy mod gydag unrhyw adnoddau rwyf ei hangen yn barod ar ddechrau'r wers
- sicrhau bod cyflenwad pŵer a gliniaduron/ipads/offer yn barod cyn i'r wers ddechrau
- dangos parch i bawb yn yr ystafell ddosbarth ar-lein. Mae rheolau'r dosbarth/ysgol yn dal i fodoli. Byddaf yn defnyddio iaith addas fel buaswn i yn ei wneud yn yr ysgol
- gwisgo'n briodol ar gyfer pob gwers gan feddwl am barch at eraill
- sicrhau bod y lleoliad yn briodol, (er enghraifft – defnyddio cegin, ystafell fyw neu swyddfa) a byddaf yn ystyried cefndir ac ongl camera
- cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol â pheidio ag aflonyddu ar eraill
- peidio â rhannu delweddau o'r dosbarth
- cymryd tro i siarad, ac os oes angen, tawelu meic os oes sŵn cefndirol.

Gan fod nifer o blant yn rhan o'r sesiynau byw, rydym yn gofyn i chi fel rhieni/ofalwyr wneud pob ymdrech i gefnogi'r plentyn wrth baratoi ar gyfer y sesiwn os oes angen, a sicrhau fod gan eich plentyn leoliad tawel ar gyfer y sesiynau, gan fod yn ymwybodol fod llawer o sŵn cefndir i'w glywed gan bawb arall sydd yn rhan o'r sesiynau byw.

Trefniadau casglu pecynnau gwaith – Byddwn unwaith eto yn rhoi cyfle i chi gasglu llyfr darllen/adnoddau/gweithgareddau ar ffurf copiau papur os ydych yn dymuno, a bydd y trefniadau ar gyfer casglu fel y nodir yn yr amserlen isod. ***Os ydych yn dymuno casglu adnoddau, bydd angen i chi fod wedi cysylltu gyda'r athro/awes ddosbarth cyn 3.30 o'r gloch p'nawn Gwener Ionawr y 15fed*** er mwyn galluogi fod digon o amser i baratoi pecyn.

Bydd yr adnoddau a ofynnwyd amdanynt ar gael i'w casglu o focs fydd wedi ei leoli y tu allan i ddrws neuadd yr ysgol yn y dull arferol. Bydd y gwaith mewn ffolder, gydag enw eich plentyn ar y blaen. Sylwer nad yw'r amseroedd casglu yr un fath pob wythnos.

Gofynnwn yn garedig i chi gadw at yr amserlen, gan wisgo mwgwd neu orchudd wrth ddod ar dir yr ysgol.

Dosbarth/Class	Dyddiad / Date	Amser / Time
Mrs M.Williams Bl.5&6 / Yr.5&6	18.1.21	1.00-1.30
Mr D.Jones Bl.3&4 / Yr.3&4	18.1.21	1.45-2.15
Miss E. Richards Bl.1&2 / Yr.1&2	18.1.21	12.15-12.45
Miss A.Morris Nursery / Reception	19.1.21	12.15-12.45
Miss D.Dempsey Bl.1&2 / Yr.1&2	19.1.21	1.00-1.30
Miss C. Darlington Bl.3&4 / Yr.3&4	19.1.21	1.45-2.15
Miss E. Evans Bl.5&6 / Yr.5&6	20.1.21	10.00-10.30
Mr S. Owen Bl.5&6 / Yr.5&6	21.1.21	11.30 –12.00
Miss B Morris Bl.3&4 / Yr.3&4	21.1.21	12.30-1.00
Miss M.Davies Bl.1&2 / Yr.1&2	21.1.21	1.30-2.00
Miss L.Lewis Reception/Derbyn	21.1.21	2.15-2.45

PWYSIG - Unwaith y mae'r adnoddau wedi ei casglu, dylid ymadael a safle'r ysgol yn syth os gwelwch yn dda, gan osgoi ymgynull ar safle'r ysgol i sgwrsio. Mae'r amserlen ar gyfer casglu yn gymharol dyn, ac felly mae ymadael a safle'r ysgol yn brydol yn hwyluso trefniadadau iechyd a diogelwch i bawb wrth i rieni gyrraedd ac ymadael safle'r ysgol. Diolch.

Cyfeiriad e-byst ar gyfer staff dysgu:

Miss Amy Morris	MorrisA21@hwbcymru.net
Miss Laura Lewis	LewisL109@hwbcymru.net
Miss Manon Davies	DaviesM125@hwbcymru.net
Miss Esther Richards	RichardsE305@hwbcymru.net
Miss Delyth Dempsey	DempseyD1@hwbcymru.net
Miss Catrin Darlington	DarlingtonC7@hwbcymru.net
Miss Bethan Morris	MorrisB27@hwbcymru.net
Mr Dyfan Jones	JonesD106@hwbcymru.net
Mrs Manon Williams	WilliamsM1666@hwbcymru.net
Miss Elliw Evans	EvansE42@hwbcymru.net
Mr Sion Owen	OwenS19@hwbcymru.net

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i'ch hysbysu o unrhyw wybodaeth bwysig y byddwn yn ei dderbyn ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol, cyn gynted ag y bydd yn bosib.

Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gofio cysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel gan gymryd gofal gyda'ch teuluoedd.

Rhodri Jones
Pennaeth